**DALEN FFEITHIAU – YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN PENSIWN DUR PRYDAIN**

Mae'r Llywodraeth hon wedi gwneud yn glir iawn ei ymrwymiad i sicrhau diwydiant Dur Prydain parhaus. Rydym wedi cymryd camau clir ar ynni, caffael ac arferion masnachu annheg - ceisiadau allweddol y diwydiant dur.

I'r perwyl hwn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn nodi ystod o opsiynau ar gyfer Cynllun Pensiwn Dur Prydain i ddarparu eglurder a sicrwydd i aelodau'r cynllun tra hefyd yn cefnogi'r broses werthu. Rydym yn benderfynol o ystyried yr holl opsiynau wrth i ni ddatblygu pecyn ehangach o gefnogaeth y Llywodraeth i wneud yr hyn a allwn ar gyfer Dur y DU, gweithwyr dur a chymunedau yr effeithir arnynt.

Bydd yr ymgynghoriad yn edrych ar sut y dylai ein fframwaith diogelu pensiynau cryf a sefydledig cael ei gymhwyso yn yr achos hwn, yn ogystal â chynnig gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Dur Prydain a Tata i ganiatáu i'r Ymddiriedolwyr lleihau rhwymedigaethau ariannol y cynllun cyn ei wahanu gyda'r busnes.

**Cefndir**

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd Tata Steel UK eu bod wedi colli £2 biliwn mewn pum mlynedd, ac nad oedd Tata yn gallu parhau i sicrhau'r colledion hyn. Dywedodd Tata y byddai'n ymchwilio i bob opsiwn ar gyfer ailstrwythuro'r busnes dur yn y DU, ac yn awyddus i symud yn gyflym i sicrhau gwerthiant Tata Steel UK.

Mae Cynllun Pensiwn Dur Prydain yn gynllun mawr iawn, gyda thua 130,000 o aelodau. O'r rhain, mae 14,000 yn weithredol (maent yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd), mae 32,000 yn cael eu gohirio (nid ydynt bellach yn cael eu cyflogi gan TSUK ond maent o dan oedran pensiwn arferol y cynllun ac felly nad ydynt eto yn cael pensiwn) a 84,000 yn bensiynwyr. Mae'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig, ble mae'r swm a delir i aelodau yn seiliedig ar faint o flynyddoedd maent wedi gweithio i'r cyflogwr a'r cyflog y maent wedi'i ennill. Mae'r cyflogwr noddedig, sy'n cyfrannu at y cynllun, yn gyfrifol am sicrhau bod gan y cynllun ddigon o arian i dalu'r pensiynau a addawyd wrth i aelodau ymddeol.

Fel sy'n gyffredin i nifer o gynlluniau buddion diffiniedig, mae Cynllun Pensiwn Dur Prydain mewn diffyg ariannol. Ond mae'n cael ei ariannu'n gymharol dda o gymharu â llawer o gynlluniau budd-dal diffiniedig mawr eraill. Mae ganddo werth £13.3 biliwn o asedau, a rhwymedigaethau, gan dybio bod cyflogwr noddedig yn cefnogi hynny, o tua £14 biliwn.

O ystyried ei faint, mae'n debygol, fel rhan o'r gwerthiant, bydd angen gwahanu'r cynllun pensiwn oddi wrth y busnes. Yn yr amgylchiadau hyn byddai cynllun pensiwn fel arfer yn mynd i mewn i'r Gronfa Diogelu Pensiynau. Sefydlwyd y Gronfa Diogelu Pensiynau yn 2004 i dalu iawndal i aelodau o'r math hwn o gynllun pensiwn sydd mewn perygl o golli eu pensiwn am fod y cyflogwr noddedig wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

Mae lefelau iawndal y Gronfa Diogelu Pensiynau yn cynrychioli rhwyd ddiogelwch sylweddol ar gyfer aelodau cynllun pensiwn. Mae gan aelodau'r cynllun sydd dros oedran pensiwn arferol y cynllun hawl i iawndal o 100%, ac mae gan aelodau iau'r cynllun hawl i 90% o iawndal pan fyddant yn cyrraedd eu hoedran pensiwn arferol. Mae'r Gronfa Diogelu Pensiynau yn capio taliadau iawndal ar gyfer y rhai sydd eto i gyrraedd eu hoedran pensiwn arferol ar £33,678 y flwyddyn, llawer uwch na'r incwm

blynyddol cyfartalog o bensiwn preifat o £ 11,400. Mae gwerth y taliadau iawndal hyn sydd wedi'u capio yn cynyddu bob blwyddyn, ac mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynyddu'r swm wedi'i gapio ar gyfer pobl gyda dros 20 mlynedd o wasanaeth mewn cynllun pensiwn penodol; er enghraifft, gallai rhywun sydd â 30 mlynedd o wasanaeth cael hyd at £43,700.

**Cynnig Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Dur Prydain**

O ystyried bod diwydiant dur Prydain yn rhan bwysig o'n heconomi, mae'r Llywodraeth yn fodlon ystyried yr holl gynigion ymarferol ar gyfer sut i ddarparu gwell canlyniadau i aelodau. Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Dur Prydain yn credu bod, er na allent dalu'r holl aelodau'r pensiwn a addawyd iddynt yn wreiddiol, mae ganddynt ddigon i dalu'r rhan fwyaf o aelodau'r un fath â neu bensiynau uwch na fyddai'r Gronfa Diogelu Pensiynau yn talu mewn iawndal, ac yn benodol ni fyddai'n rhaid iddynt gapio pensiynau uwch.

Mae rheolau Cynllun Pensiwn Dur Prydain yn caniatáu iddynt leihau lefel y pensiwn a addawyd, ond mae'r defnydd o'r rheolau hyn yn cael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth y Llywodraeth a gynlluniwyd i amddiffyn aelodau. Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Dur Prydain, a gefnogir gan Tata Steel UK, felly wedi cysylltu â'r Llywodraeth yn gofyn i ni newid y gyfraith i ganiatáu iddynt newid rheolau eu Cynllun heb orfod cael caniatâd yr aelodau.

Os canfyddir yr opsiwn i fod yn ymarferol, byddai newidiadau arfaethedig yr Ymddiriedolwyr yn lleihau taliadau pensiwn aelodau yn y dyfodol drwy ostwng y swm y byddai'r pensiwn yn cynyddu yn y dyfodol. Byddai hyn yn golygu bod y rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r aelodau o leiaf yn well eu byd o dan y cynnig ag y byddent yn ei gael pe byddai Cynllun Pensiwn Dur Prydain yn mynd i mewn i'r Gronfa Diogelu Pensiynau.

**Pam mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar yr opsiwn hwn?**

Dylai unrhyw newidiadau i'n fframwaith diogelu pensiynau cryf a sefydledig cael ei ystyried yn ofalus. Mae'r Llywodraeth am sicrhau bod yr opsiwn hwn yn ymarferol a bod aelodau Cynllun Pensiwn Dur Prydain yn cael eu diogelu'n briodol. Mae angen i'r Llywodraeth fod yn siŵr ei bod yn deall sut y mae'r ymddiriedolwyr yn bwriadu defnyddio eu pwerau; y gall y cynllun wneud yr arbedion mae'n meddwl y gall ei wneud a bod y newidiadau o'r budd gorau i aelodau'r cynllun.

Yn ogystal, mae'n bwysig cymryd i ystyriaeth sut y gallai'r newid hwn effeithio ar bob cynllun pensiwn buddion diffiniedig arall a'u haelodau. Mae'n bwysig y gall aelodau fod yn hyderus bod eu pensiynau yn ddiogel ac nad yw'r fframwaith diogelu pensiynau ehangach yn cael ei danseilio. Mae 11 miliwn o bobl yn y math hwn o gynllun pensiwn, felly mae angen ystyried unrhyw newid yn ofalus.

Nid yw'r Llywodraeth wedi cymryd unrhyw benderfyniad ar p'un ai i fynd ar drywydd unrhyw opsiwn eto; pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw archwilio ystod lawn o ffyrdd posibl ymlaen. Os oes gennych unrhyw bryderon, gallwch ofyn i ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn Dur Prydain, neu'ch undeb, neu'ch AS lleol neu'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau.

Mae'r ymgynghoriad ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/consultations/british-steel-pension-scheme](https://www.gov.uk/government/consultations/british-steel-pension-scheme).

Os ydych am ymateb i'r ymgynghoriad, cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bsps.consultation@dwp.gsi.gov.uk cyn 23ain Mehefin.

ISBN 978-1-78425-796-5